



Annwyl Aelod

Mae trefniadau bellach wedi eu gwneud i gynnal cyfarfod blynyddol y Clwb Mynydda am 6.00pm, nos Sadwrn, 19 Tachwedd 2022 yng Ngwesty'r Royal Oak, Betws y Coed gyda'r Cinio Blynyddol i ddilyn yn brydlon am 7.30pm. Noder y bydd rhai aelodau o bosib yn ymuno a'r cyfarfod blynyddol drwy gyfrwng Zoom. **Mae'r holl adroddiadau i weld ar wefan y Clwb.**

Rhaglen y noson

1. Gair o groeso gan y Cadeirydd
2. Ethol Cadeirydd ar gyfer 2022-2024
3. Ymddiheuriadau
4. Derbyn cofnodion Cyfarfod Blynyddol 2021 a gynhaliwyd ar 13 Tachwedd, 2021 yng Ngwesty'r Oakley Arms, Maentwrog fel rhai cywir (Copi ynghlwm)
5. Adroddiad y Trysorydd ac adroddiad ariannol 2021/2022 - Dilys Phillips
6. Adroddiad yr Ysgrifennydd Cyffredinol ac Aelodaeth – Iolo Roberts
7. Adroddiad yr Ysgrifennydd Gweithgareddau – Eryl Owain
8. Adroddiad Ysgrifennydd y Wefan – Iolo ap Gwynn
9. Ethol Swyddogion – Trysorydd & Ysgrifenyddion – **gweler adroddiad yr Ysgrifennydd Cyffredinol.**
10. Ethol Is-Gadeirydd ac Aelodau'r Pwyllgor – **gweler adroddiad yr Ysgrifennydd Cyffredinol.**
11. Penodi Archwilydd
12. Cynigion a hysbysir ymlaen llaw (Dim cynigion wedi eu derbyn)
13. Trafodaeth agored (trwy'r Cadeirydd cyn dechrau'r cyfarfod)

Ar ddiwedd y cyfarfod rhoddir dangosiad sydyn gan Dwynwen a Sioned o sut i ddefnyddio'r diffibriliwr symudol sy'n cael ei gario gan arweinyddion ar deithiau'r Clwb bellach.

Yn gywir iawn,

Iolo Roberts
(Ysgrifennydd Gweithredol ac Aelodaeth)